

128)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting:Medi 21ain 2020 am 8 yh dros Zoom(21/09/20—via Zoom).

---

1)Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Annette Davies(cadeirydd),E.Jones,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies,Arwel Davies,B.Cobain,Y.Griffiths.

Ymddiheuriadau(apologies):S.Mason,M.Evans.

Clerc:Anita Evans.

2)Dim datganiad o ddiddordeb/no declaration of interest.

3)Heddlu—neb wedi gallu ymuno.Negeseuon oddiwrth y Cynghorwyr I’r Heddlu:

a)car yn parcio tu ôl Bro’r Hen Wr ers tua dau fis ac yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd

b)Tweli Services—ceir yn cael eu parcio wrth ochr y palmant nôl I Wilkes’Head,ac yn creu trafferth i yrrwyr.

Police—not able to join the meeting.Messages from the Councillors:

a)car parked ar rear of Bro’r Hen Wr overnight for about two months,and used during the day.Owner unknown.

b)Tweli Services Garage—cars parked on road back to Wilkes’Head,causing problems for drivers.

---

4)Cofnodion 125 a 127 wedi eu derbyn(E.J. a M.G.).Statement found to be a true record.

5)Materion y Clerc/up dates from the Clerk:

a) Dŵr ar hewl Pontweli—nid yw’r Cyngor yma’n bles gyda’r atebion dderbyniwyd ynghlŷn â phroblem y dŵr yn rhedeg o gyfeiriad Pencraigwen,lawr i’r hewl fawr.Dywedodd C.Sir L.Evans y bydd yn cysylltu â Darren King,pennaeth priffyrdd.C.C.L.Evans will contact Darren King(head of highways)on our behalf to see if progress can be made to stop the water running down from Pencraigwen,onto the highway,and crossing it.This is very dangerous.

b)Defibrillators:nid yw cwmni Cariad wedi cysylltu’n ddiweddar—mae angen un yn lle’r un gafodd ei ddwyn oddiar wal y Fynwent,ac hefyd yn dilyn cais am un ychwanegol ym Mhontweli(ar ôl y ddamwain angeuol ar bont Llandysul)pasiwyd ein bod yn prynu un arall(V.D.yn cynnig ac Y.Griffiths yn eilio).We have 2 defibrillators to order;one as replacement for the Cemetery wall(to be placed on Glanawmor Ucha Farm wall)and one In Pontweli).

c)Les y toiledau—heb glywed nôl oddiwrth y cyfreithwyr/no answer from solicitors re toilet block leases.

ch)wal y Cornel Chwarae(ochr Waungader) —mae angen pigo’r wal lawr,peintio,a gosod ffens newydd.Trafodwyd a bodlonodd E.Jones fesur ac ati.Cytunwyd(H.Lewis,D.Davies).We plan to improve the wall and fence of the Play Corner(Waungader side).

d)Concrit yn yr afon Talog/does dim gwybodaeth newydd/no update on moving the concrete boulders in Talog river.

---

6)Ariannol/financial: derbyniwyd y fantolen yn gywir(Y.G. M.G.)

Un bil i’w dalu/bill to be paid:£44.86—Clerc’s costs 22/07 to 19/08.(to be paid Y.G. M.G.)

129) 7) Cynllunio/Planning—wedi eu hanfon dros y we/e.mailed to Councillors.

-----  
8) Gohebiaeth/correspondence: C.Sir Gâr/C.C.Council:

a) Cyfnod ymgynghori-ychwanegol—3 week extended period of consultation—local development plan.

b) Cysylltedd digidol/digital connectivity—register for better broadband before Sept 30<sup>th</sup>.

c) Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth—Ffioedd Claddu Plant/Memorandum of Understanding Child Burial fees—registration needed.

Eraill/Other:

ch) e-bost oddiwrth Meleri Griffiths, Dolgran yn gofyn am olau stryd ychwanegol tu fas Tyglyn, Dolgran i gadw plant ysgol yn ddiogel/request for extra street light near Tyglyn, Dolgran to ensure the safety of schoolchildren waiting for the school bus. H. Lewis proposed, B. Cobain seconded; all agreed.

d) Trac Teifi—cynllun i greu llwybr cerdded a beicio i gysylltu cymunedau ar hyd Dyffryn Teifi/this is a project to try to connect communities in the Tivy valley by creating a footpath and cycle track. Dylan Davies declared that he would like to be part of the project.

dd) e-bost oddiwrth J. Bliss, Greenhill Cottage (hewl Pencader i Landysul) yn gofyn am ostwng cyflymder y traffig heibio ei thy a tuag at Bont Dryslwyn. Dywedodd C. Sir L. Evans y byddai'n cwyno ar ein rhan. J. Bliss has contacted the Council regarding the dangerous road from her house, Greenhill towards Llandysul. This Council has complained continuously about this stretch of road to no avail. C. C. L. Evans said she would deal.

e) Wendy Davies wedi cysylltu'n dilyn damwain angeuol ar bont Llandysul—gofyn am defibrillator arall yn ardal Pontweli/requests an extra defibrillator.

-----  
9) Gwybodaeth oddiwrth y Cynghorwyr/Information from Councillors:

a) B. Cobain: Pencader—mae'r twll ar bwys iard y Cyngor yn dal heb ei lanw/hole outside old Council depot still not filled in.

b) Annette Davies: golau ochr draw fferm Glanawmor Ucha ddim yn gweithio/street light fused; angen trasho o gwmpas arwyddion y plwyf, a'u golchi/signs need to be cleaned, and area around needs trashing (all signs); pot hole on the turning for New Inn from Llanfihangel; angen paentio'r groesfan sebra ym Mhencader, a'r clustogau cyflymder a'r un ar sgwar Llan'el ar arth/zebra crossings and speed cushions need painting.

c) D. Davies: sgwâr Penlan a'r arwydd angen sylw/Penlan junction needs attention—C. C. L. Evans will contact Mike Jacobs. Darnau concrit wedi cwmpo ar y palmant ym Mhontweli oddiar wal garej Highway / E Jones will speak to the owner of Highway garage with reference to the concrete from the wall falling onto the pavement.

ch) H. Lewis: sedd yn Llanfihangel eisiau reparo—cynnigiodd Arwel Davies wneud y gwaith. Darn o ffens y Fynwent eisiau ei chywiro. Part of a bench in Llanfihangel, and part of the Cemetery fence in Pencader need repairing.

d) M. Griffiths: golau stryd yn dal heb eu newid i LED mewn 3 man ym Mhontweli/some street lights still have not been changed in Pontweli.

dd) V. Davies: twll ar droead i Bencader o Landysul/ pothole in Pontweli on the junction to Pencader—causing danger.

e) Y. Griffiths: arwynebedd hewl o Danfforddgo I Gwyddgrug dal heb ei wella/road to Gwyddgrug still not finished.

130) Gwybodaeth parhad/info.contd.

f)M.Evans:wedi anfon negeseuon:1)gofidio'n fawr fod y gwasanaeth band eang mor wael yn ei gartef(nid yw'n gallu ymuno mewn cyfarfod Zoom).Oes rhywbeth yn digwydd?C.Sir L.Evans yn annog pawb I gofrestru ar y linc o'r C.Sir/M.Evans complains that the broadband in New Inn is very poor.2)Mae sgwâr New Inn yn le peryglus-eisiau gwella arwyddion/New Inn crossroads is very dangerous—there was a serious accident lately.C.C.L.Evans will take Mike Jacob(Co.Council to visit the site.3)dŵr yn broblem ochr draw Llwynwallter,Gwyddgrug-C.C.L.Evans yn delio/water runs across the road from opposite Llwynwallter—C.Councillor is dealing.4)rhiw allan o Gwyddgrug tuag at Caerfyrddin wedi cael arwynebedd,ond yn arw iawn/hill out of Gwyddgrug towards Carmarthen has been resurfaced,but is very rough.

ff)E.Jones: mater brys--am godi gwasanaeth Sul y Cofio eleni.Bu trafodaeth,a theimlwyd y byddai'n anodd iawn I gynnal gwasanaeth o dan gyfyngderau Covid.Cynnigiodd M.Griffiths ein bod yn gosod gwybodaeth yn Clecs na fydd gwasanaeth,ond y bydd y C.Cymuned yn gosod torchau fel arfer.Eiliodd B.Cobain.It was decided,as an urgent matter, not to hold a Remembrance Service in the usual form this year.This Council will place poppies.The Council realises this is a sensitive matter,and Covid rules change very often.A notice will be placed in Clecs.

.....